


Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff
NARG10 – Cwpanau Coffi

| | |
|--------------------------|----------------|
| Awdur: | Fiona Wheatley |
| Cymeradwywyd gan: | Fiona Abbott |
| Dyddiad Adolygu: | 09/11/2018 |

| Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff NARG10 | |
|---|-------------------------------------|
| Cwpanau Coffi | |
| Lleoliad Cynhyrchu | Pob ardal |
| EWC | 20-03-01 |
| Math | Gwastraff a Reolir |
| Dull Gwaredu | Didoli i'w ailgylchu |
| Math o Fin/Sach | Biniau Cwpanau Coffi Yn Unig |
| Gofynion Dyletswydd Gofal | |
| <p>Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.</p> <p>Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ddioli ei gwastraff cyn gwaredu arno a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn gwaredu arnynt yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.</p> <p>Gwerthwyd dros 800,000 o gwpanau coffi tafladwy gan siopau coffi'r Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Mae cwpanau coffi'n her i'r diwydiant gwastraff ac ailgylchu oherwydd eu cyfansoddiad, ond mae'r Brifysgol yn ceisio dod o hyd i d dulliau ymarferol o ailgylchu'r nifer mawr o gwpanau tafladwy sy'n cael eu cynhyrchu.</p> | |
| Cyfarwyddiadau Gwaredu | |
| <p>Peidiwch â rhoi cwpanau coffi yn adran 'Papur' y biniau pedair a dwy adran a geir yn adeiladau'r brifysgol neu yn yr awyr agored ar y campws. Drwy wneud hyn mae'r gwastraff papur a chardbord yn cael ei halogi, felly ni fydd yn addas i'w ailgylchu bellach.</p> <p>Peidiwch â rhoi cwpanau coffi mewn unrhyw finiau ac eithrio'r biniau ailgylchu cwpanau coffi ar draws y campws, a'r biniau olwyn du ar gyfer cwpanau coffi a geir yn yr awyr agored.</p> | |
| Biniau tu mewn | |
| <div style="display: flex; justify-content: space-around;">   </div> | |
| Ffigur 1 - Biniau cwpanau coffi a biniau pedair adran ym Mhrifysgol Abertawe | |

Biniau tu allan



Ffigwr 2: - Biniau pedair adran a biniau contractwyr ar safleoedd Prifysgol Abertawe

I helpu i leihau nifer y cwpanau coffi tafladwy sy'n cael eu defnyddio yn y Brifysgol, defnyddiwch Gwpan Cadw a derbyn gostyngiad 25c ar bob cwpanaid o goffi a brynwch

Costau Gwaredu

Mae'r gost gwaredu wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, does dim cost uniongyrchol i unigolion/Colegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol. Serch hynny, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o 63% ar gyfer troi gwastraff yn ynni, neu ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi, drwy beidio â defnyddio'r ffrwd wastraff gyffredinol os nad oes gwir angen.

Labelu

Gweler y templed

Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

